



ARDRETHI ANNOMESTIG

Arweiniad i'n HYSBYSIAD O BENDERFYNIAD

Nid yw'r arweiniad hwn yn cwmpasu pob agwedd o'r broses apêl. Nid oes rhaid i ni ddilyn popeth yn yr arweiniad hwn, ac nid yw'n effeithio ar sut rydym ni'n defnyddio'r deddfau neu reoliadau perthnasol. Byddwn yn ymateb i unrhyw gais rhesymol gennych chi am gyngor neu eglurhad.

BETH YW HYSBYSIAD O BENDERFYNIAD?

Mae'r Hysbysiad o Benderfyniad yn eich cynghori chi am benderfyniad y Tribiwnlys ac mae datganiad y rhesymau am y penderfyniad yn cyd-fynd â'r hysbysiad.

APELIADAU ARDRETHI ANNOMESTIG

Lle bo'r Tribiwnlys wedi gorchymyn addasu'r Rhestr Ardrethu, rhaid i Asiantaeth y Swyddfa Briso gydymffurfio â'r gorchymyn hwnnw cyn pen pythefnos. Unwaith y bo wedi gwneud hynny, mae ganddi bedair wythnos arall i hysbysu'r Cyngor/Awdurdod Bilio am y newid. Yna bydd yr Awdurdod Bilio'n ailasesu swm yr ardrethi sy'n daladwy, os yw hynny'n berthnasol.

APELIADAU HYSBYSIAD CWBLHAU

Os gorchymynwyd addasu'r diwrnod cwblhau, cynghorir Asiantaeth y Swyddfa Briso a'r Cyngor am y penderfyniad hwn a bydd pob un yn gweithredu fel bo'n ofynnol.

APELIADAU HYSBYSIAD ANNILYSRWYDD

Os caniatawyd eich apêl chi, bydd eich cynnig yn cael ei hystyried gan Asiantaeth y Swyddfa Briso. Os nad yw'n cytuno â'r newidiadau rydych chi'n eu ceisio bydd hynny'n deillio mewn apêl a fydd yn cael gwrandawriad gan y Tribiwnlys ar ddyddiad diweddarach.

A FEDR Y TRIBIWNLYS ADOLYGU'R PENDERFYNIAD?

Dim ond ar y seiliau isod y gall y Tribiwnlys ystyried cais i adolygu ei benderfyniad:

- gwnaed y penderfyniad yn anghywir o ganlyniad i gamgymeriad clercol;
- ni wnaeth parti ddod i'r gwrandawriad a gall ddangos rheswm da pam nad oedd yn bresennol; neu
- effeithir ar y penderfyniad gan benderfyniad gan, neu o'r Uchel Lys neu'r Tribiwnlys Uchaf yng nghyswllt apêl ynghylch annedd neu, fel bo'n berthnasol, yr unigolyn a oedd yn wrthrych penderfyniad y Tribiwnlys.
- Yn achos **apeliadau Hysbysiad Cwblhau yn unig** mae sail ychwanegol sy'n caniatâu ystyried tystiolaeth newydd lle bo tystiolaeth o'r fath wedi dod i'r fei, ac na ellid bod wedi'i chael neu rhagweld y dystiolaeth yn rhesymol yn gynharach.

Os ydych chi'n dymuno gwneud cais am adolygiad ar unrhyw un o'r seiliau uchod, dylech ysgrifennu i'r Tribiwnlys yn nodi'r seiliau ar gyfer cynnal adolygiad. Gellid gwrthod cais am adolygiad os nad yw'n cael ei wneud cyn pen **pedair wythnos** o ddyddiad hysbysu'r partion am y penderfyniad.

A FEDRA' I APELIO YN ERBYN PENDERFYNIAD Y TRIBIWNLYS?

Caiff unrhyw unigolyn a ymddangosodd neu a gynrychiolwyd yn y gwrandawriad (neu a gyflwynodd apêl ffurfiol trwy sylwadau ysgrifenedig dan y Rheoliadau) ac sy'n anhapus â'r penderfyniad, cyn pen pedair wythnos o ddyddiad y penderfyniad, apelio trwy hysbysiad ysgrifenedig i Siambr Tiroedd yr Uwch Dribiwnlys.

Dylid anfon Hysbysiad Apêl yn y ffurf a ragnodir gan Reolau'r Siambr Tiroedd i'r:

Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd)
5^{ed} Llawr, Rolls Building
7 Rolls Buildings
Fetter Lane
Llundain
EC4A 1NL

DX: 160042 Strand 4
Rhif ffôn: 020 7612 9710
Rhif ffacs: 020 7612 9723
E-bost: lands@hmcts.gsi.gov.uk
Gwefan: www.landstribunal.gov.uk

Cewch gopïau o'r ffurflen o wefan y Siambr Tiroedd neu ei swyddfa.

Dylech fod yn ymwybodol y gall y Siambr Tiroedd ddyfarnu costau yn erbyn y parti aflwyddiannus. Felly efallai y byddwch chi'n dymuno ystyried cyngor proffesiynol cyn apelio i'r Siambr Tiroedd.

A FEDRA' I GWYNO AM Y GWASANAETH A DDARPARWYD?

Os oes gennych chi gŵyn am y modd y gwnaeth gweinyddiaeth Tribiwnlys Prisio Cymru drin eich hachos chi, yn gyntaf dylech ysgrifennu at y Tribiwnlys yn y cyfeiriad a ddangosir ar ein hysbysiadau. Cewch eich hysbysu am weithdrefn gwynion lawn y Tribiwnlys yn ymateb Clerc y Tribiwnlys.

Cewch ddefnyddio'r broses hon i wneud cwyn am y modd y gwnaeth y Tribiwnlys drin eich apêl yn weinyddol. Bydd apêl bellach yn erbyn y penderfyniad yn cael ei chyflwyno i Siambr Tiroedd yr Uwch Dribiwnlys.

RHAGOR O WYBODAETH

Ein cofnodion

Mae'r gyfraith yn caniatáu i unrhyw un ymweld â swyddfa Tribiwnlys i edrych ar gopïau agendâu a phenderfyniadau a wnaed gan y Tribiwnlys yn y chwe mlynedd ddiwethaf. Agendâu yw rhestrau apeliadau y rhoddwyd dyddiad gwrandawriad iddynt.

Cewch ragor o wybodaeth am Dribiwnlys Prisio Cymru, ei restrau a'i benderfyniadau apeliadau a'i gyhoeddiad ar y wefan hon: www.valuationtribunal.wales.

Ein swyddfa

Tribiwnlys Prisio Cymru
22 Gold Tops

CASNEWYDD
NP20 4PG
Ffôn: 01633 255003
E-bost: correspondence@valuationtribunal.wales